Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Maes Garmon

**Stryd Conwy**
**Yr Wyddgrug**
**CH7 1JB**

**Dyddiad yr arolygiad: Rhagfyr 2019**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Maes Garmon

Ysgol uwchradd ddynodedig Gymraeg ar gyfer disgyblion 11 – 18 oed yw Ysgol Maes Garmon. Cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf ym mis Ionawr 2013. Ym mis Tachwedd 2016, daeth yr ysgol yn rhan o ffederasiwn ffurfiol 'Cwlwm' gydag Ysgol Gynradd Gymraeg Mornant o dan un pennaeth gweithredol ac un corff llywodraethol. Fodd bynnag, ym Medi 2018, diddymwyd rôl pennaeth gweithredol y ffederasiwn a dychwelwyd i drefn dau bennaeth ar wahân o fewn trefniant y ffederasiwn. Mae gan Ysgol Gynradd Mornant bennaeth dros dro ac mae pennaeth Ysgol Maes Garmon yn ei swydd ers 2010. Mae un dirprwy, tri phennaeth cynorthwyol a chydgysylltydd anghenion dysgu ychwanegol hefyd ar uwch dîm arwain Ysgol Maes Garmon.

Mae'r ysgol wedi ei lleoli yn Yr Wyddgrug ac mae'n cael ei chynnal gan awdurdod lleol Sir y Fflint. Mae'r ysgol yn gwasanaethu trefi a phentrefi ledled Sir y Fflint. Mae 10.4% o'r disgyblion yn byw yn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru.

Mae 532 o ddisgyblion ar y gofrestr, sy'n cynnwys 67 yn y chweched dosbarth. Mae hyn yn llai nag ar adeg yr arolygiad diwethaf lle roedd 558 o ddisgyblion, gan gynnwys 105 yn y chweched dosbarth. Mae 8.8% o'r disgyblion yn gymwys i brydau ysgol am ddim, sydd yn is na'r ganran genedlaethol ar gyfer ysgolion uwchradd, sef 16.4%. Mae 14.8% o'r disgyblion ar gofrestr anghenion addysgol arbennig yr ysgol, sydd yn is na'r ganran genedlaethol o 22.5%. Mae gan 2.4% o'r disgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig, sydd yn debyg i'r ffigwr cenedlaethol o 2.2%.

Daw 26% o'r disgyblion o gartrefi lle mae'r Gymraeg yn cael ei siarad ac mae 97% yn rhugl yn y Gymraeg. Mae gan yr ysgol ddarpariaeth 'drochi' ar gyfer grŵp o ddisgyblion ym Mlwyddyn 7 ac 8 sydd wedi trosglwyddo o ysgolion cynradd Saesneg, i'w galluogi i dderbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg yn y brif ffrwd. Ychydig iawn o'r disgyblion sydd o gefndiroedd ethnig lleiafrifol. Nid oes unrhyw ddisgybl â Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.

http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae Ysgol Maes Garmon yn gymuned glòs, ofalgar lle rhoddir pwyslais cryf ar gefnogi disgyblion i sicrhau eu bod yn datblygu'n ddinasyddion parchus. Mae'r pennaeth, y staff a'r llywodraethwyr yn gweithio'n effeithiol i sicrhau bod y disgyblion yn elwa o addysg Gymraeg, cefnogaeth fuddiol a phrofiadau dysgu eang o fewn y gymuned leol.

Mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn eu medrau pynciol a'u medrau llythrennedd a rhif. Mae'r ychydig iawn o ddisgyblion sy'n newydd i addysg cyfrwng Cymraeg yn gwneud cynnydd cryf yn eu gallu ieithyddol trwy'r ddarpariaeth drochi ym Mlwyddyn 7 ac 8.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mwynhau dod i'r ysgol ac yn ymddwyn yn barchus tuag at athrawon a chyfoedion. Maent yn hynod groesawgar a chwrtais gydag ymwelwyr ac yn cydweithio'n dda gydag athrawon ac oedolion eraill yn y gymuned.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn adnabod eu disgyblion yn dda ac yn meithrin perthynas waith werthfawr gyda hwy. Mae'r trefniadau ar gyfer cefnogi disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn nodwedd eithriadol o waith yr ysgol. Yn y mwyafrif o wersi, mae athrawon yn cynllunio tasgau addas sy'n datblygu medrau pynciol, llafaredd a rhif eu disgyblion yn briodol. Fodd bynnag, oherwydd diffygion yn yr addysgu, nid yw disgyblion, yn enwedig y rhai mwyaf galluog, yn gwneud cystal cynnydd ag y gallent.

Mae arweinwyr yn deall eu rolau'n dda ac maent yn llwyr ymroddedig i'r ysgol. Mae cyfarfodydd rheolaethol cyson i drafod agweddau pwysig. Er bod arweinwyr ar bob lefel yn defnyddio data yn addas i ddadansoddi perfformiad disgyblion, nid ydynt yn rhoi ystyriaeth ddigon manwl a chyson i safonau disgyblion mewn gwersi ac yn eu llyfrau er mwyn arfarnu effaith eu gwaith.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Digonol ac angen gwella** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Digonol ac angen gwella** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Digonol ac angen gwella** |

## Argymhellion

A1 Gwella safonau yn y medrau, yng nghyfnod allweddol 4 ac ar gyfer disgyblion sy’n gymwys i brydau ysgol am ddim

A2 Gwella ansawdd yr addysgu

A3 Cryfhau’r ddarpariaeth ar gyfer y medrau, yn arbennig rhifedd a TGCh

A4 Gwella arweinyddiaeth ar bob lefel, yn enwedig gallu arweinwyr i sicrhau lefelau uchel o atebolrwydd a’u gallu i werthuso effaith y ddarpariaeth yn gywir

A5 Lleihau’r diffyg ariannol

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.  Bydd Estyn yn adolygu cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Digonol ac angen gwella**

Yn gyffredinol, mae'r mwyafrif o ddisgyblion Ysgol Maes Garmon yn gwneud cynnydd priodol yn eu medrau pynciol a'u medrau llythrennedd a rhif yn ystod eu hamser yn yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ddisgyblion, yn enwedig y rhai mwy galluog, yn cyflawni eu potensial.

Mewn ychydig iawn o wersi, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf iawn yn eu gwybodaeth bynciol ac mewn llafaredd. Mae'r disgyblion hyn yn dewis tasgau heriol, yn cyfrannu'n helaeth mewn trafodaethau dosbarth ac yn esbonio eu safbwyntiau yn ddeallus ac yn huawdl. Maent yn gwneud datblygiad cadarn iawn yn eu medrau meddwl. Er enghraifft, mewn gwersi Cymraeg, mae disgyblion yn cynnig eglurhad aeddfed a deallus o sut maent yn gallu uniaethu â'r bardd Hywel Griffiths yn ei soned 'Ofn'. Maent yn gweithio'n frwdfrydig i ystyried ansoddeiriau grymus sy'n disgrifio teimladau pobl wrth wynebu sefyllfaoedd sy'n peri dychryn.

Mewn llawer o wersi, mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd addas yn eu dealltwriaeth bynciol. Maent yn adalw gwaith blaenorol yn briodol ac, ar y cyfan, yn adeiladu ar eu dysgu yn addas erbyn diwedd y wers. Fodd bynnag, mewn ychydig iawn o wersi, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cyfyngedig yn eu medrau llythrennedd a rhifedd ac nid ydynt yn gwneud datblygiad digon cadarn yn eu medrau meddwl nac wrth weithio'n annibynnol.

Mae'r ychydig iawn o ddisgyblion sy'n mynychu'r ddarpariaeth drochi yn gwneud cynnydd cryf yn eu medrau ieithyddol Cymraeg. Maent yn adeiladu'n effeithiol ar eu geirfa a'u dealltwriaeth o gystrawen a rheolau gramadegol. O ganlyniad, maent yn datblygu'r gallu i gyfathrebu'n effeithiol yn sydyn. Er enghraifft, mae disgyblion trochi Blwyddyn 8 yn siarad yn hyderus wrth drafod materion amgylcheddol, gan wneud defnydd addas o eirfa pwnc penodol.

Mewn ychydig o wersi, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cryf mewn llafaredd. Yn y gwersi hyn, maent yn cyfrannu'n effeithiol at drafodaethau dosbarth, yn cynnig atebion estynedig ac yn esbonio eu safbwyntiau'n glir gan gynnig rhesymau dilys dros eu barn. Er enghraifft, yn y cyfnod cofrestru, mae disgyblion iau yn cyd-drafod maniffestos gwleidyddol ac yn cyfiawnhau eu barn yn hyderus a chyda brwdfrydedd. Yn y gwersi eraill, mae mwyafrif y disgyblion yn gwrando'n ofalus ac yn barchus ar yr athro ac ar eu cyfoedion. Ar y cyfan, maent yn ymateb yn briodol i dasgau llafar, er enghraifft wrth drafod pa wlad yn Is Sahara Affrica sydd fwyaf datblygedig a pham yn eu gwersi daearyddiaeth. Fodd bynnag, mae gormod o achosion lle mae disgyblion yn cynnig atebion byr ac arwynebol.

Yn gyffredinol, mae llawer o ddisgyblion yn lleoli ffeithiau, cywain gwybodaeth a deall ystyr yn llwyddiannus wrth ddarllen ystod briodol o destunau . Mewn ychydig iawn o achosion, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cryf mewn uwch fedrau darllen fel adnabod nodweddion arbennig mewn testunau megis perswâd. Yn y gwersi hanes, mae disgyblion yn gwerthuso defnyddioldeb ffynonellau am yrfa Al Capone yn llwyddiannus. Fodd bynnag, nid yw disgyblion ar draws yr ystod gallu yn gwneud datblygiad digon cyson yn eu huwch fedrau darllen megis dadansoddi, rhesymu a dod i gasgliad.

Yn y Gymraeg ac yn Saesneg, mae mwyafrif y disgyblion yn ysgrifennu gyda rhuglder. Mae ganddynt afael briodol ar eirfa pwnc penodol, er enghraifft ‘ahimsa’, ac ‘ailymgnawdoliad’ yn y gwersi addysg grefyddol. Mae ychydig o ddisgyblion mwy abl yn meddu ar eirfa gyfoethog ac yn mynegi eu hunain yn glir gan ddefnyddio ystod dda o ansoddeiriau ac idiomau. Er enghraifft, maent yn creu disgrifiadau llwyddiannus wrth bortreadu bwli trwy wneud defnydd pwrpasol o ansoddeiriau i greu darluniau byw. Fodd bynnag, mae llawer o ddisgyblion ar draws yr ystod gallu yn gwneud camgymeriadau sillafu a gramadeg cyson yn eu gwaith ysgrifenedig. O ganlyniad i ddiffyg cyfleoedd mewn ychydig o bynciau, nid yw disgyblion yn gwneud cynnydd digon cyson wrth ysgrifennu’n estynedig.

Mae mwyafrif y disgyblion yn datblygu eu medrau rhif yn briodol mewn pynciau perthnasol. Maent yn llunio graffiau’n gywir gan ddefnyddio echelinau ac allweddau’n addas. Maent yn hyderus wrth ddefnyddio’r pedair rheol rhif, er enghraifft wrth iddynt gyfrifo nifer y gronynnau mewn atom yn y gwersi cemeg ac wrth ddatrys faint o ymarfer corff sydd angen ei gyflawni i losgi calorïau yn y gwersi addysg gorfforol. Mae mwyafrif y disgyblion yn datblygu medrau trin data yn addas wrth lunio a dehongli graffiau hinsawdd a chyfrifo dwysedd poblogaeth yn y gwersi daearyddiaeth. Fodd bynnag, cyfyngedig yw gallu llawer o ddisgyblion i ddefnyddio eu medrau rhif yn llwyddiannus mewn sefyllfaoedd bob dydd, er enghraifft wrth ddefnyddio’r raddfa gyfnewid o ddoleri i bunnoedd.

Mae mwyafrif y disgyblion yn datblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) addas mewn amrediad cul o bynciau. Er enghraifft, maent yn creu cronfa ddata er mwyn dadansoddi profion ffitrwydd yn addysg gorfforol a defnyddio apiau er mwyn ymarfer gwaith llafar ac ysgrifenedig yn Ffrangeg. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn gwneud datblygiad cynyddol yn eu medrau TGCh ar draws yr holl bynciau.

Mae mwyafrif y disgyblion yn datblygu medrau meddwl a datrys problemau yn addas mewn ychydig o bynciau. Er enghraifft, maent yn gwneud defnydd buddiol o fapiau meddwl i ddatblygu eu gwybodaeth, megis wrth ystyried nodweddion llosgfynyddoedd yn y gwersi daearyddiaeth. Yn y gwersi gwyddoniaeth, mae disgyblion yn dadansoddi ffeithiau trwy wneud defnydd pwrpasol o ddiagram Venn i grynhoi nodweddion celloedd.

Yn gyffredinol, mae perfformiad disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 4 yn debyg i berfformiad disgyblion mewn ysgolion tebyg yn y mwyafrif o ddangosyddion. Er bod eu perfformiad wedi amrywio dros amser, mae perfformiad bechgyn yn y prif ddangosyddion yn 2019 yn is na pherfformiad bechgyn mewn ysgolion tebyg. Nid yw perfformiad disgyblion sydd yn derbyn prydau ysgol am ddim yn cymharu’n ffafriol â pherfformiad y grŵp hwn o ddisgyblion mewn ysgolion tebyg. Yn 2019, mae perfformiad yn y dystysgrif her sgiliau yn uwch nag ydyw mewn ysgolion tebyg.

Mae nifer y disgyblion sy’n cwblhau eu cyrsiau yn y chweched dosbarth yn uchel. Yn gyffredinol, mae disgyblion y chweched dosbarth yn gwneud cynnydd tebyg i ddisgyblion sydd â man cychwyn tebyg.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Da**

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymfalchïo yn y ffaith eu bod yn perthyn i deulu a chymuned glòs Ysgol Maes Garmon. Maent yn mwynhau eu profiadau yn yr ysgol ac yn dangos parch teilwng at athrawon a chyfoedion. Maent yn hynod groesawgar a chwrtais gydag ymwelwyr.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo’n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi pe bai angen cymorth neu gyngor arnynt. Mae llawer o ddisgyblion yn teimlo bod yr ysgol yn delio’n dda ag unrhyw achosion prin o fwlio neu aflonyddu.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn brydlon i wersi, yn ymdawelu’n gyflym ac yn ymroi i dasgau’n ddiffwdan. Mae llawer ohonynt yn dangos agweddau cadarnhaol tuag at eu gwaith, gan wrando’n ofalus a pharchus ar eu hathrawon a chyfoedion. Maent yn canolbwyntio’n effeithiol ac yn dyfalbarhau’n benderfynol pan fyddant yn wynebu anawsterau yn eu gwaith. Fodd bynnag, mae ychydig o ddisgyblion yn colli ffocws neu’n arddangos diffyg cymhelliant ar brydiau. Ar y cyfan, mae llawer o ddisgyblion yn gweithio’n briodol mewn parau a grwpiau pan fydd cyfle ganddynt. Mae mwyafrif y disgyblion yn gweithio’n annibynnol yn llwyddiannus.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o sut i gadw’n iach trwy ddiet ac ymarfer corff. Mae llawer yn manteisio’n frwd ar ystod o weithgareddau chwaraeon a ffitrwydd gwerthfawr megis criced i ferched, rhedeg traws gwlad a nofio. Mae cyfraddau uchel o ddisgyblion yn cymryd rhan frwdfrydig yn yr arlwy eang o weithgareddau cymunedol a chelfyddydol. Er enghraifft, mae disgyblion yn cyfrannu’n sylweddol at gyngerdd Nadolig blynyddol mewn eglwys yng nghanol tref Yr Wyddgrug ac maent yn trefnu parti ac adloniant i henoed yr ardal.

Mae nifer arwyddocaol o ddisgyblion yn cymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau lleol. Mae llawer ohonynt yn ymfalchïo yn eu cymuned ac yn gwirfoddoli i godi sbwriel yn y dref fel rhan o’r ymgyrch ‘Glanhau’r Gwanwyn’. Mae’r ysgol gyfan yn gweithio ar brosiectau hanes lleol sy’n cael effaith gadarnhaol ar y bobl leol. Trwy hyn, maent yn datblygu empathi ac ymwybyddiaeth o werthoedd moesol. Er enghraifft, mae disgyblion yn gwella eu dealltwriaeth o effaith rhyfel ar unigolion ac ar y gymuned leol drwy holi a chymdeithasu gyda chyn-aelodau oedrannus y lluoedd arfog. Yn ogystal, mae’r disgyblion yn datblygu medrau cymdeithasol gwerthfawr wrth ddod i ddeall effeithiau andwyol unigrwydd ar y gymuned hŷn.

Mae ychydig o ddisgyblion yn ymgymryd â rolau a chyfrifoldebau arwain yn llwyddiannus, er enghraifft drwy gyfrannu at y Fforwm Ysgol a’r Pwyllgor Eco. Mae’r grwpiau hyn wedi dylanwadu’n briodol ar fywyd yr ysgol. Er enghraifft, maent wedi dylanwadu ar gynnwys y polisi cefnogi ymddygiad yn ogystal â chynorthwyo’r broses o sefydlu clwb brecwast. Mae disgyblion hefyd yn ymgyrchu’n egwyddorol dros leihau'r defnydd o blastig yn y ffreutur.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu’n llwyddiannus fel dinasyddion moesegol, gwybodus a goddefgar. Maent yn cyfrannu’n werthfawr at elusennau lleol a chenedlaethol, er enghraifft ‘Awyr Las’, elusen y Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol yng ngogledd Cymru ac elusen ganser leol. Mae disgyblion y chweched dosbarth yn arddangos aeddfedrwydd a sensitifrwydd emosiynol gwerthfawr wrth fentora a

chefnogi disgyblion iau yn eu rôl wirfoddol fel ‘Gwrandawyr Cyfoedion’. Maent yn cynnig cymorth a chefnogaeth fuddiol i ddisgyblion Blwyddyn 7 wrth ddatblygu eu medrau bywyd a chymdeithasol.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Digonol ac angen gwella**

Yn yr ychydig iawn o wersi lle mae disgyblion yn gwneud cynnydd ardderchog, mae athrawon yn cynllunio’n effeithiol iawn i sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd cryf iawn yn eu medrau llythrennedd a phynciol. Maent yn gweithio’n egnïol i gyflwyno geirfa a thermau pwnc cyfoethog ac i alluogi disgyblion i gyflawni tasgau heriol a buddiol yn llwyddiannus. Maent yn strwythuro’u gwersi’n bwrpasol er mwyn adeiladu’n gyson ar fedrau, gwybodaeth a phrofiad disgyblion ac i sicrhau cynnydd. Yn y gwersi hyn, mae cyflymder addas iawn i’r addysgu sy’n sicrhau cyfranogiad grymus gan y disgyblion.

Yn y rhan fwyaf o wersi, mae athrawon yn rheoli eu dosbarthiadau’n effeithiol. Mae ganddynt berthynas waith gefnogol ac adeiladol gyda’u disgyblion ac maent yn eu hadnabod yn dda iawn. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o’u pwnc. Mewn llawer o wersi, mae athrawon yn darparu adnoddau pwrpasol sy’n cefnogi’r dysgu. Maent yn cyflwyno a chyfarwyddo yn eglur ac yn cefnogi disgyblion yn effeithiol wrth iddynt gwblhau tasgau unigol ac mewn grwpiau bach.

Mewn lleiafrif o wersi, mae’r amcanion dysgu yn canolbwyntio’n glir ar ddatblygu gwybodaeth, medrau a dealltwriaeth disgyblion ac mae athrawon yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau addas i gyflawni hyn. Mae’r rhain yn cynnwys addysgu uniongyrchol ac ymarferion sy’n annog cydweithio mewn parau a grwpiau yn llwyddiannus. Maent yn cynllunio gweithgareddau symbylus i hybu medrau meddwl ac yn gosod ‘Tasgau Tanio’ cychwynnol sy’n sbarduno’r dysgu.

Mewn lleiafrif o wersi, prin yw’r cyfleoedd i ddatblygu uwch fedrau darllen a medrau ysgrifennu estynedig. Yn y gwersi hyn, mae athrawon yn gor-gyfarwyddo’r dysgu ac yn gosod gormod o dasgau byr, di-her. O ganlyniad, nid ydynt yn caniatáu digon o amser i ddisgyblion drafod yn ddigon manwl a datblygu eu syniadau ar lafar nac yn ysgrifenedig. Mae’r athrawon yn y gwersi hyn yn dueddol o siarad gormod ac nid ydynt yn gwneud digon o ddefnydd o waith disgyblion i fodelu gwaith da.

Mae ychydig o athrawon yn defnyddio cwestiynu’n gelfydd i ehangu dealltwriaeth disgyblion ac i’w hannog i feddwl ymhellach. Fodd bynnag, yn rhy aml, mae athrawon yn gofyn cwestiynau byr a chaeedig sydd ond yn caniatáu iddynt wirio dealltwriaeth y disgyblion. Yn gyffredinol, mae llawer o athrawon yn rhoi sylwadau buddiol ar waith disgyblion. Yn yr achosion gorau, mae’r sylwadau yn bwrpasol ac yn arwain y disgybl i wneud gwelliannau. Mae disgyblion yn ymateb yn briodol i sylwadau’r athrawon hyn. Mewn enghreifftiau eraill, mae’r sylwadau yn rhy arwynebol neu’n or-ganmoliaethus ac nid ydynt yn llwyddo i wella gwaith dilynol y disgyblion yn ddigon cadarn.

Mae cwricwlwm yr ysgol yn addas ac yn adeiladu'n briodol ar brofiadau’r disgyblion o gyfnod allweddol 2. Yn gyffredinol, mae’r ysgol yn darparu cwricwlwm priodol ar gyfer disgyblion cyfnod allweddol 4 ac yn y chweched dosbarth. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn arfarnu’r cwricwlwm yn ddigon rheolaidd i sicrhau bod y ddarpariaeth yn diwallu anghenion a dyheadau’r holl ddisgyblion. Er enghraifft ychydig o gyfleoedd sydd i ddilyn cyrsiau galwedigaethol yng nghyfnod allweddol 4.

Mae’r ysgol yn cydweithio’n agos gydag ysgolion cynradd partner i drefnu gweithgareddau pontio addas sydd yn cyfoethogi profiadau dysgu y disgyblion mewn ychydig iawn bynciau. Trefnir gweithgareddau gwerthfawr i sicrhau bod disgyblion yn ymgartrefu’n llwyddiannus yn yr ysgol fel teithiau preswyl blynyddol i wersyll yr Urdd Llangrannog i ddisgyblion Blwyddyn 6 a Blwyddyn 7. Mae gan yr ysgol gysylltiadau buddiol gyda chyflogwyr lleol megis Airbus, Toyota a ffatri cynhyrchu papur Shotton Paper, sydd wedi sicrhau llwybrau dysgu llwyddiannus i ddisgyblion dros nifer o flynyddoedd.

Mae’r ysgol yn cynnig darpariaeth drochi hynod effeithiol i ddisgyblion o ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg sy’n trosglwyddo i’r ysgol ym Mlwyddyn 7. Drwy ddarparu gwersi cynhwysol a phwrpasol, mae’r athrawon yn sicrhau bod y disgyblion di-Gymraeg hyn yn caffael y Gymraeg yn llwyddiannus. Erbyn iddynt gyrraedd Blwyddyn 8 neu 9, maent i gyd yn ymuno â dosbarthiadau prif ffrwd ac yn dilyn y cwricwlwm yn gyfan gwbl trwy’r Gymraeg. Mae hyn yn nodwedd arbennig.

Un o gryfderau'r ysgol yw'r ddarpariaeth o ystod eang o gyfleoedd diwylliannol gwerthfawr sy’n cyfoethogi profiadau dysgu’r disgyblion. Mae hyn yn cynnwys rhaglen gynhwysfawr o weithgareddau chwaraeon a chelfyddydol buddiol, er enghraifft gwersi llafar Mandarin, clwb hanes poblogaidd, clwb cerdd glasurol a chlwb celf. Caiff pob disgybl gyfle i gystadlu ac i berfformio mewn Eisteddfodau lleol a chenedlaethol, mewn gweithgareddau chwaraeon a cherddoriaeth ac mewn cystadlaethau corawl o safon uchel fel cystadleuaeth Côr Cymru.

Mae ymweliadau addysgol lleol a thramor yn cyfrannu’n effeithiol at y cwricwlwm ac at brofiadau disgyblion. Er enghraifft, trefnir teithiau tramor diddorol i Ffrainc a’r Eidal gan yr adrannau ieithoedd modern a hanes. Yn ogystal, rhoddir cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ennill cymhwyster amgylcheddol John Muir trwy wneud gwaith gwirfoddol yn ardal y Bala.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer hyrwyddo Cymreictod a meithrin medrau disgyblion yn y Gymraeg yn nodwedd gref. Sicrheir cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddefnyddio’r Gymraeg tu allan i’r ystafell ddosbarth trwy weithgareddau wythnosol yng nghangen yr ysgol o’r Urdd ac ymweliadau preswyl i ganolfannau'r Urdd yng Nglan-llyn ym Mlwyddyn 8 a Chaerdydd ym Mlwyddyn 9.

Ar y cyfan, mae cyfleodd priodol i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a meddwl disgyblion yn eu gwersi ac yn ystod y cyfnodau cofrestru. Mae cyfleoedd addas i ddisgyblion ddatblygu medrau rhifedd mewn lleiafrif o bynciau perthnasol ar draws y cwricwlwm. Mae cefnogaeth briodol i ddisgyblion sydd â medrau gwan, er enghraifft trwy’r cynllun “Mêts Darllen”, ac mae trefniadau priodol i werthuso effaith y rhaglenni hyn. Fodd bynnag, nid yw cynllunio ar gyfer datblygiad cynyddol ym medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion ar draws y cwricwlwm wedi ei ddatblygu’n ddigonol, ac nid yw’r ddarpariaeth yn gydlynus ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, nid oes digon o gyfleoedd ar draws y cwricwlwm i ddisgyblion drosglwyddo’u medrau mathemategol mewn amrywiaeth o gyd-destunau ac i ddatrys problemau rhifyddol bywyd pob dydd. Nid oes digon o gyfleoedd i sicrhau bod disgyblion mwy abl yn gwneud cynnydd cryf.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau TGCh disgyblion yn datblygu’n briodol. Yn ddiweddar, mae arweinwyr wedi dechrau cyd-gynllunio amrywiaeth addas o gyfleoedd i ddatblygu medrau TGCh y disgyblion ar gyfer llawer o adrannau. Fodd bynnag, nid oes digon o gyfleoedd i ddisgyblion wneud datblygiad cynyddol yn eu medrau TGCh ar draws yr ysgol.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae Ysgol Maes Garmon yn gymuned hynod ofalgar a chlòs sy'n cynnig amgylchedd diogel i'w disgyblion. Mae holl staff yr ysgol yn arddel pwysigrwydd 'teulu Maes Garmon'.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn un o gryfderau'r ysgol. Mae gan yr ysgol weithdrefnau effeithiol i adnabod anghenion disgyblion yn gynnar ac i ddarparu ymyraethau buddiol iddynt. Mae'r gofal o fewn canolfan 'yr Hwb' yn sicrhau cynhaliaeth arbennig i les, datblygiad personol a chynnydd disgyblion bregus. Mae'r staff cymorth yn rhoi cefnogaeth werthfawr i'r disgyblion hyn yn eu gwersi. Mae'r ysgol yn ymateb yn gadarnhaol i anawsterau'r disgyblion ac yn teilwra ei darpariaeth yn bwrpasol i ddiwallu eu hanghenion. Mae cynlluniau addysg unigol ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn ddogfennau defnyddiol sydd yn cynnwys strategaethau addas i fodloni eu hanghenion. Mae'r ysgol yn olrhain ac adolygu cynnydd y dysgwyr hyn yn erbyn eu targedau yn effeithiol. Cydweithia'r ysgol yn agos gydag ystod eang o asiantaethau allanol er mwyn cynnig cefnogaeth werthfawr i'r disgyblion hyn.

Mae rhaglen gynhwysfawr o ymyraethau effeithiol er mwyn cefnogi disgyblion sydd â medrau sylfaenol gwan a'r rhai sydd ag anghenion emosiynol, ymddygiadol neu gymdeithasol. Mae'r ysgol yn cynnal a chefnogi'r disgyblion mwyaf bregus yn hynod lwyddiannus trwy waith y penaethiaid blwyddyn, y swyddog cefnogi disgyblion a gwrandawyr cyfoedion o'r chweched dosbarth. Mae arweinwyr yn cydweithio'n hynod effeithiol gydag ystod eang o asiantaethau allanol i gefnogi'r disgyblion. Mae hyn yn cynnwys y nyrs ysgol, y gwasanaeth iechyd meddwl i blant yn eu harddegau, y gwasanaeth cwnsela a mudiadau cefnogi plant megis Action for Children a Barnardos. O ganlyniad i'r gefnogaeth werthfawr hon, mae bron bob un disgybl yn parhau yn yr ysgol tan ddiwedd cyfnod allweddol 4 ac yn symud yn llwyddiannus i'r cam nesaf. Mae hyn yn nodwedd gref.

Mae gan yr ysgol brosesau trylwyr i olrhain presenoldeb disgyblion ac mae arweinwyr yn cydweithio'n effeithiol gyda rhieni a'r swyddog lles. O ganlyniad, mae'r ysgol yn cynnal cyfraddau presenoldeb da.

Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi cryfhau ei system olrhain cynnydd ysgol-gyfan. Fodd bynnag, dros amser, nid yw'r defnydd o wybodaeth olrhain cynnydd academaidd wedi bod yn ddigon trylwyr a miniog i sicrhau adnabyddiaeth gywir o berfformiad disgyblion sydd mewn perygl o dangyflawni yn ddigon cynnar. O ganlyniad, nid yw prosesau'r ysgol wedi cael effaith ddigon cadarnhaol ar gynnal safonau.

Yn gyffredinol, mae'r ysgol yn cyfathrebu'n briodol â rhieni. Maent yn derbyn 'Cofnod Cynnydd' ac adroddiadau ar waith y disgyblion ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r adroddiadau yn rhoi darlun clir o ymroddiad disgyblion, yn adnabod eu cryfderau ac yn cynnig targedau priodol ar gyfer gwneud cynnydd pellach.

Mae gan yr ysgol drefniadau cadarnhaol er mwyn hyrwyddo a datblygu gallu disgyblion i wneud dewisiadau doeth o ran byw'n iach. Mae'r ysgol wedi ymrwymo i gynllun rhwydwaith ymchwil iechyd mewn ysgolion, sydd wedi arwain at gynlluniau gwella defnyddiol yn y meysydd yfed yn iach a chamddefnyddio sylweddau. Mae gwaith yr ysgol gyda phrosiect amddiffyn a pharch yr NSPCC yn datblygu hyder a dycnwch disgyblion bregus yn effeithiol.

Ceir amserlen bwrpasol a chyfoethog o weithgareddau amser cinio ac ar ôl ysgol i ddisgyblion, gan gynnwys clybiau celf, clwb hanes a chlwb eco. Mae‘r ysgol yn darparu llawer o weithgareddau sy’n hybu ffitrwydd ac sy’n annog disgyblion i wneud dewisiadau sy’n effeithio’n gadarnhaol ar eu lles. Mae’r cyfleoedd hyn yn agored i bawb. Mae’r clwb hanes yn nodwedd gref sy’n darparu cyfleoedd amhrisiadwy i ddisgyblion gryfhau eu hymwybyddiaeth o bwysigrwydd ymchwilio i hanes yr ardal leol. Enghraifft o hyn yw ymweliad â chanolfannau pwysig yn hanes terfysg Yr Wyddgrug a gwrando ar gyflwyniad hanesydd lleol.

Cefnoga’r ysgol ddatblygiad moesol a chymdeithasol disgyblion yn dda drwy’r cyfnodau cofrestru, mewn gwersi penodol a gwasanaethau. Fodd bynnag, nid yw trefniadau i sicrhau cyfleoedd buddiol i ddisgyblion fyfyrio’n ystyrlon ar eu credoau a’u gwerthoedd eu hunain ac eraill yn ddigon cadarn. Mae’r ysgol yn trefnu diwrnodau addysg bersonol a chymdeithasol addas yn dymhorol, gan ddefnyddio arbenigedd asiantaethau allanol i gyflwyno gwybodaeth allweddol. Mae’r rhain yn cynnwys sesiynau buddiol ar seibrfwlio a goddefgarwch hiliol a chrefyddol. Mae’r clwb gwrandawyr cyfoedion yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion iau rannu profiadau a chonsyrn ar feysydd fel secstio, perthnasoedd iach a hunanddelwedd gyda disgyblion y chweched dosbarth.

Mae’r ysgol yn cynnig cyngor ac arweiniad buddiol i ddisgyblion wrth iddynt drosglwyddo o un cyfnod i’r nesaf, gan gynnwys arweiniad yn ymwneud â dewisiadau cyrsiau a gyrfa. Mae’r ysgol yn gwneud defnydd cynhyrchiol o gysylltiadau â phrifysgolion a chyflogwyr lleol. Mae’r cysylltiadau hyn yn cynnig profiadau buddiol i ddisgyblion sy’n eu helpu i baratoi ar gyfer addysg bellach a bywyd fel oedolyn.

Mae trefniadau diogelu’r ysgol yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Digonol ac angen gwella**

Fel rhan o’r tîm arwain o fewn Ffederasiwn Cwlwm, mae gan bennaeth Ysgol Maes Garmon weledigaeth glir sydd wedi’i seilio ar gynnal ysgol uwchradd ofalgar a chynhwysol o fewn awyrgylch deuluol a chynhaliol Gymreig. Mae hi’n arweinydd doeth ac yn gyfathrebwraig huawdl sy’n rhannu ei gweledigaeth yn gadarn gyda staff, llywodraethwyr, disgyblion a rhieni. Caiff ei gweledigaeth ei choleddu gan bron pob aelod o staff ac mae’n treiddio trwy waith yr ysgol. Mae’r pennaeth yn uchel ei pharch o fewn cymuned yr ysgol ac mae ei chefnogaeth i staff a disgyblion yn ddi-ball. Mae ysbryd cryf o gyd-dynnu ymysg yr holl staff a dyhead cryf i gefnogi disgyblion er mwyn sicrhau eu bod yn mwynhau ac yn elwa o addysg Gymraeg a phrofiadau dysgu ehangach. Gosodir disgwyliadau uchel o ran ymddygiad, presenoldeb a chyfranogiad i fywyd yr ysgol. O ganlyniad, mae arweinyddiaeth wedi cael effaith gadarnhaol ar safonau lles dros amser.

Mae rolau a chyfrifoldebau'r pennaeth a'r uwch dîm arwain wedi'u diffinio'n glir a’u dosbarthu’n briodol ac mae llinellau atebolrwydd yn glir. Mae calendr penodol ac agenda strwythuredig ar gyfer cyfarfodydd ar bob lefel ac maent yn ffocysu’n addas ar agweddau pwysig megis safonau ac ansawdd y ddarpariaeth. Ceir cyfarfodydd cyson rhwng penaethiaid adran a'u rheolwyr llinell, yn ogystal â chyfarfodydd adran. Er bod cyfrifoldebau’n cael eu nodi yn y cyfarfodydd hyn, nid yw pwyntiau gweithredu a dyddiadau i’w cwblhau yn ddigon clir. O ganlyniad, mae hyn yn lleihau gallu arweinwyr i ddwyn staff yn atebol am eu gwaith.

Yn gyffredinol, mae arweinwyr ar bob lefel yn defnyddio data yn addas i ddadansoddi perfformiad disgyblion. Fodd bynnag, nid ydynt yn rhoi ystyriaeth ddigon manwl a chyson i safonau disgyblion mewn gwersi ac yn eu llyfrau er mwyn arfarnu effaith eu gwaith. Nid ydynt yn rhoi digon o sylw i berfformiad grwpiau o ddisgyblion, megis bechgyn, merched, disgyblion ag anghenion addysgol arbennig a'r rhai sydd yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. O ganlyniad, nid yw arweinyddiaeth wedi dylanwadu'n ddigon cadarn ar leiafrif o ddangosyddion perfformiad ar ddiwedd cyfnod allweddol 4 ac yn y chweched dosbarth dros amser.

Mae'r rhan fwyaf o arweinwyr canol yn adnabod eu hadrannau'n dda ac maent yn sicrhau cefnogaeth fuddiol iddynt. Er enghraifft, rhoddir cynhaliaeth werthfawr i athrawon newydd eu penodi neu'r rhai sydd newydd gymhwyso. Mae llawer o adrannau'n cydweithio'n effeithiol i gyd-gynllunio gwersi ac adnoddau. Serch hyn, nid oes digon o gysondeb yn y modd y mae arweinwyr canol yn dwyn eu hadrannau'n atebol am eu gwaith.

Mae'r ysgol wedi ymateb yn briodol i flaenoriaethau cenedlaethol megis lleihau effaith tlodi. Mae hyn wedi dylanwadu'n gadarnhaol ar bresenoldeb disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim dros amser ac ar gefnogaeth werthfawr i ddisgyblion sydd ag anawsterau emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiadol. Fodd bynnag, nid yw perfformiad disgyblion sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim yn cymharu'n ffafriol gyda pherfformiad y grŵp hwn o ddisgyblion mewn ysgolion tebyg eraill dros amser.

Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol iawn i'r ddwy ysgol o fewn Ffederasiwn Cwlwm. Maent yn gweithredu'n angerddol dros sicrhau addysg Gymraeg yn Sir y Fflint. Mae eu rôl fel cyfaill beirniadol yn datblygu'n addas.

Mae gan yr ysgol raglen briodol o weithgareddau sicrhau ansawdd. Mae arweinwyr ar bob lefel yn casglu tystiolaeth addas gan gynnwys arsylwadau gwersi, craffu ar waith disgyblion a data perfformiad. Mae'r prosesau hyn yn sicrhau bod gan arweinwyr dystiolaeth ddilys o safonau ac ansawdd addysgu ac asesu yn eu hadrannau. Fodd bynnag, mae defnydd arweinwyr o'r wybodaeth hon ac ansawdd y gwerthuso yn rhy amrywiol. Nid oes gan fwyafrif yr arweinwyr afael digon cadarn ar gryfderau yn yr addysgu a'r meysydd sydd angen eu gwella. Yn y mwyafrif o achosion, mae'u harsylwadau yn arwynebol ac yn canolbwyntio'n ormodol ar gydymffurfiaeth â pholisïau a chanllawiau yn hytrach nag effaith addysgu ar gynnydd, safonau a medrau disgyblion.

Mae'r ysgol yn canfod barn grwpiau o ddisgyblion am ddysgu ac addysgu yn achlysurol ond nid yw'r agwedd hon wedi ei datblygu'n llawn. Nid yw'r ysgol yn gofyn barn rhieni yn ddigon aml wrth gynllunio ar gyfer gwelliant.

Mae'r cynllun gwella ysgol gyfan yn cynnwys blaenoriaethau addas sy'n ffocysu ar godi safonau, gwella addysgu, datblygu'r cwricwlwm newydd ac arweinyddiaeth. Mae'r cynlluniau gwella adrannol yn adlewyrchu blaenoriaethau'r ysgol yn briodol ac yn cynnwys gweithredoedd dilys. Fodd bynnag, nid yw'r camau gweithredu yn cynnwys targedau mesuradwy a chlir. Mae hyn yn cyfyngu gallu arweinwyr a rhanddeiliaid i arfarnu cynnydd.

Mae’r ysgol yn sicrhau bod gan staff ar bob lefel gyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu’n broffesiynol. Mae arweinwyr yn darparu cyfleoedd defnyddiol trwy sesiynau hyfforddiant mewn swydd a chyfarfodydd cymunedau dysgu i rannu arferion da yn ymwneud â dysgu ac addysgu. Mae hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar arferion yn yr ystafell ddosbarth. Rhoddir cefnogaeth ofalus i athrawon sydd angen gwella eu hymarfer.

Mae gan yr ysgol drefniadau rheoli perfformiad priodol ar gyfer staff addysgu. Pennir targedau addas sydd yn ymateb i flaenoriaethau’r ysgol, blaenoriaethau adrannol ac anghenion dysgu personol. Serch hynny, nid yw’r targedau’n ddigon heriol na phenodol i alluogi arweinwyr i arfarnu perfformiad. Nid oes cysylltiad digon clir rhwng targedau rheoli perfformiad a dysgu proffesiynol a chodi safonau. Ar y cyfan, mae’r ysgol yn mynd i’r afael â thanberfformiad staff yn briodol.

Mae'r rheolwr busnes a’r pennaeth yn monitro gwariant yn fanwl. Yn ychwanegol, mae'r llywodraethwyr yn sicrhau bod y cyllid yn cael ei ddefnyddio'n briodol. Ers 2014, mae'r ysgol wedi cofnodi diffyg ariannol sylweddol. Mae’r ysgol yn gweithredu cynllun lleihau diffyg sydd wedi’i drwyddedu gan y sir yn briodol.

Er bod gallu'r ysgol i wneud gwaith adnewyddu helaeth yn gyfyngedig, mae cyflwr yr adeiladau yn dda. Mae'r ysgol yn defnyddio ei grant datblygu disgyblion yn bwrpasol i wella presenoldeb a chyfranogiad disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

## Sail dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2020: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 06/02/2020